| | |
|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 23/05/18 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 22/11/18 |
| **Rhif y fersiwn:** | 1.00 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | Addysg |
| **Maes Gwaith:** | Blynyddoedd Cynnar |
| **Manylion cyswllt:** | Fiona Santos<br>BlynyddoeddCynnar@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Y Blynyddoedd Cynnar – Datblygu'r Gweithlu |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn egluro sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch drwy'r system archebu hyfforddiant a arweinir gan ddefnyddwyr ar-lein ar gyfer y sector gofal plant, lle y gall defnyddwyr archebu cyrsiau hyfforddiant gofal plant rydyn ni'n eu gweinyddu, a thalu amdanynt. |

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

### Categorïau/Ffynhonnell data personol a geir

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd unigolion yn cyflwyno eu gwybodaeth eu hunain i'r system os bydd angen hyfforddiant gofal plant arnynt. Fodd bynnag, mae'n bosibl i'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno gan rywun ar eich rhan, megis eich rheolwr.

Dyma amlinelliad o'r wybodaeth y byddwn yn ei chasglu:

- Eich enw a'ch manylion cyswllt
- Ble rydych yn gweithio
- Eich swyddogaeth yn eich sefydliad a theitl eich swydd
- Manylion eich cofnod hyfforddiant personol
- Gwybodaeth ddewisol arall amdanoch sy'n ymwneud ag anghenion hyfforddi, er enghraifft, alergeddau, dyslecsia ac ati

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Bydd tîm y Blynyddoedd Cynnar, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn defnyddio'ch data personol er mwyn darparu mynediad ar eich cyfer i'r cyrsiau hyfforddiant gofal plant rydyn ni'n eu gweinyddu, a chaniatáu i chi archebu a thalu. Bydd yr wybodaeth hon hefyd yn gofnod hyfforddiant personol ar gyfer staff gofal plant.

Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth i lunio cofnod ac archwilio gofynion hyfforddi'r sector.

Bydd gwybodaeth hefyd yn cael ei defnyddio at ddiben gweinyddu'r cyrsiau hyfforddiant gofal plant a'r taliadau perthnasol.

**Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu**

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

Erthygl 6 1(b): processing is necessary for the performance of a contract to which the data subject is party or in order to take steps at the request of the data subject prior to entering into a contract;

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol arbennig'. Byddai'r wybodaeth berthnasol y gallwn ei chasglu, sy'n dod o dan y diffiniad hwn, yn cynnwys alergeddau, dyslecsia, anawsterau symudedd ac ati. Er mwyn prosesu'r wybodaeth hon, mae'n rhaid nodi amod ychwanegol o erthygl 9 o'r Rheoliad, fel yr amlinellir isod:

Deddf Diogelu Data 2018 – Atodlen 1 – Rhan 2 (Nid yw'r rhan hon ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw.)

8(1) This condition is met if the processing—
- (a) is of a specified category of personal data, and
- (b) is necessary for the purposes of identifying or keeping under review the existence or absence of equality of opportunity or treatment between groups of people specified in relation to that category with a view to enabling such equality to be promoted or maintained, subject to the exceptions in sub-paragraphs (3) to (5).

## Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

**Manylion y Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol / Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolwyr Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth.

**Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Datblygu Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar

**Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Bydd methu â thalu am hyfforddiant o fewn yr amserlenni a bennwyd yn arwain at drosglwyddo eich manylion cyswllt, a'r manylion am y ddyled, i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Mân Ddyledwyr – i adennill y balansau sy'n weddill.

### Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill

Os byddwch yn archebu cwrs gofal plant sy'n cael ei ddarparu gan drydydd parti, bydd y wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu â'r trydydd parti dan sylw.

- Eich enw a'ch manylion cyswllt
- Ble rydych yn gweithio
- Eich swyddogaeth yn eich sefydliad a theitl eich swydd
- Gwybodaeth ddewisol arall amdanoch sy'n ymwneud ag anghenion hyfforddi, er enghraifft, alergeddau, dyslecsia ac ati

### Manylion am unrhyw brosesyddion data allanol

Mae'r systemau ar-lein sy'n dal eich gwybodaeth hyfforddiant a'ch gwybodaeth talu yn cael eu cynnal gan gwmnïau allanol.

Mae gennym gytundebau prosesu data / contractau ar waith gyda'r cwmnïau hyn er mwyn diogelu'r wybodaeth bersonol sy'n cael ei phrosesu.

### Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

### Manylion am y cyfnod cadw

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Bydd y manylion am eich cofnodion hyfforddiant yn cael eu cadw ar y system am gyfnod amhenodol, neu hyd nes y byddwch yn tynnu'ch caniatâd yn ôl i ni gadw'r wybodaeth.

Bydd data trafodion mewn perthynas ag archebu cyrsiau hyfforddiant gofal plant, a thalu amdanynt, yr ydym yn eu gweinyddu, yn cael eu cadw am saith mlynedd yn unol â'r Rheoliadau Ariannol.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

### Eich hawliau dan gyfraith Diogelu Data

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)

- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth a fanylir ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

http://www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb